Y Gwir Anrhydeddus Ian Murray AS
Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Natalie Black
Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith a Chysylltedd

19 Tachwedd 2026

Annwyl Ian,

Fforddiadwyedd band eang a thariffau cymdeithasol

Ysgrifennaf atoch i'ch diweddaru ar y cynnydd y mae Ofcom wedi'i wneud wrth wella mynediad at fand eang fforddiadwy drwy dariffau cymdeithasol, ac i dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â dibynnu ar y dull gwirfoddol sydd ar waith ar hyn o bryd.

Mae costau byw yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol i'r Llywodraeth ac i ddefnyddwyr, yn ogystal ag i Ofcom. Er bod prisiau telathrebu wedi aros yn wastad ar y cyfan, neu wedi gostwng mewn termau real yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd fforddio'r gwasanaethau cyfathrebu sy'n hanfodol i'w bywydau bob dydd.

Fel y gwyddoch, nid oes gennym bwerau rheoleiddiol i fynnu bod darparwyr yn cynnig tariffau cymdeithasol. Ond rydym wedi gweithio gyda'r diwydiant fel eu bod yn cynnig y tariffau hyn, ac yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer sut y cânt eu dylunio a'u hyrwyddo. Mae tua 30 o ddarparwyr bellach yn cynnig tariffau cymdeithasol, o gymharu â thri yn 2020. Mae'r defnydd wedi cynyddu o tua 55,000 o aelwydydd yn 2022, i fwy na hanner miliwn o aelwydydd yn 2025.

Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth a defnydd ymhlith cwsmeriaid cymwys yn parhau'n isel: dim ond tua thraean (34%) sy'n ymwybodol o dariffau cymdeithasol; ac mae llai na 10% yn eu defnyddio. Yn dilyn yr ymrwymiadau a wnaed gan lofnodwyr y Siarter Defnyddwyr Telathrebu, adolygwyd sut roedd darparwyr yn gwneud tariffau cymdeithasol yn hawdd eu canfod a'u mabwysiadu. Ym mis Gorffennaf, ysgrifennom at ddarparwyr â disgwyliadau cryfach (gweler Atodiad 1) a nodi'r camau pellach y dylent eu cymryd. Cytunodd darparwyr i wneud amrywiaeth o newidiadau, gan gynnwys gwella arwyddion i dariffau cymdeithasol ar eu gwefannau; gwneud gwybodaeth allweddol gan gynnwys prisiau yn fwy gweladwy; a chyflwyno prosesau ymgeisio symlach, mwy cynhwysol, er enghraifft drwy ddileu'r angen am alwadau'n ôl.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae terfynau ar yr hyn y gellir ei gyflawni drwy'r dull presennol:

- Mae gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr yn parhau'n her sylweddol. Rydym yn cydnabod y diddordeb diweddar gan gyrff fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn gweld cynnydd pellach yma. Mae'n debygol y byddai cyflawni newid sylweddol yn gofyn am ddull sylweddol wahanol, gan gynnwys o bosibl ymgyrch wybodaeth gyhoeddus ehangach, megis ar y teledu. Fodd bynnag, mae risg y byddai gyrru gwelliannau pellach mewn ymwybyddiaeth a chyfraddau defnydd yn arwain darparwyr i gynyddu prisiau tariffau cymdeithasol oherwydd yr enillion masnachol is y maent yn eu cynnig, gan danseilio'r manteision i gwsmeriaid.
- Rydym hefyd yn gynyddol o'r farn nad yw'r tariffau cymdeithasol presennol yn diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n wynebu heriau fforddiadwyedd yn llawn, yn enwedig y rhai ar yr incwm isaf. Mae rhai prisiau tariffau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol dros amser. Er enghraifft, mae tariff Home Essentials BT (67 Mbit/s) wedi cynyddu o £20 y mis yn 2021 i £25

y mis heddiw. Mae ymchwil defnyddwyr newydd Ofcom hefyd wedi canfod, ymhlith pobl gymwys sy'n ymwybodol o dariffau cymdeithasol ond nad ydynt wedi manteisio ar un, mai'r ddau reswm mwyaf cyffredin yw pryderon efallai nad yw cyflymderau'n ddigon cyflym (31%) a pheidio â gwybod eu bod yn gymwys (26%).

Yng nghyd-destun y posibilrwydd o ddiffodd teledu daearol digidol (DTT), bydd fforddiadwyedd band eang yn dod hyd yn oed yn bwysicach gan y bydd band eang yn hanfodol ar gyfer gwylio teledu.

Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Llywodraeth wrth iddi ystyried pa gamau pellach y gallai fod eu hangen i helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at gysylltedd band eang fforddiadwy.

Yn gywir

Natalie Black

Atodiad 1

Ein disgwyliadau wedi'u diweddaru ar gyfer darparwyr telathrebu o ran hyrwyddo a mabwysiadu tariffau cymdeithasol

1. Dylai tariffau cymdeithasol fod yn amlwg ar wefannau darparwyr, gan gynnwys yn y rhestr o fargeinion band eang sydd ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd gydag un clic o adran dan sylw ar dudalen lanio band eang (nid dim ond dolen mewn troedyn).
2. Dylai tariffau cymdeithasol fod yn hawdd i'w canfod drwy lywio a chwiliadau ar y wefan, yn ogystal ag ar sgwrsfotiau rhyngweithiol, gwefannau trydydd parti ac drwy beiriannau chwilio.
3. Dylid nodi tariffau cymdeithasol ar dudalennau gwe lle gall cwsmeriaid fod yn chwilio am help, (er enghraifft Cwestiynau Cyffredin cwsmeriaid, tudalennau cymorth, tudalennau wedi'u hanelu at gwsmeriaid bregus a'r rhai sy'n cael trafferth talu biliau), ac mewn cyfathrebu â chwsmeriaid a allai fod yn gymwys (er enghraifft mewn Hysbysiadau Diwedd Contract a sgriptiau gwasanaeth cwsmeriaid).
4. Dylid defnyddio iaith glir i ddisgrifio'r nodweddion a'r amddiffyniadau a gynigir gan dariffau cymdeithasol (megis y gallu i newid heb ffi derfynu). Dylid nodi'r prisiau ac unrhyw gyfyngiadau'n glir ar eich gwefan.
5. Dylai fod yn hawdd i gwsmeriaid cymwys gymryd tariffau cymdeithasol. Dylai fod dewis o sianel, ac ni ddylai fod angen i gwsmeriaid aros am alwadau'n ôl.
6. Dylai cwsmeriaid tariff cymdeithasol allu ychwanegu cynhyrchion masnachol yn hawdd, megis teledu talu.
7. Dylai tariffau cymdeithasol fod ar agor i gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol fel ei gilydd